31 Mawrth 2009 020 3334 3547

NI CHEIR EI GYHOEDDI CYN 00.01, 02 EBRILL 2009

CARCHAR EI MAWRHYDI A SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC (CEM A STI) Y PARC – RHAI GWELLIANNAU, OND DIM DIGON O ADNODDAU AR GYFER SWYDDOGAETH HYFFORDDI

Bu rhai gwelliannau yn y Parc, ond roedd y carchar yn dal heb ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaeth fel carchar hyfforddi, i bob pwrpas, ar gyfer Cymru, meddai'r Fonesig Anne Owers, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, wrth gyhoeddi adroddiad arolygiad dirybudd o'r carchar i ddynion a'r sefydliad i droseddwyr ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Er y bu rhai gwelliannau yn ansawdd yr addysg a'r gwaith, dim ond 70 o leoedd addysg a oedd ar gael i 1200 o garcharorion, a dim ond 289 o leoedd gwaith, ac roedd rhai o'r rheini mewn gweithdai contract lle nad oedd digon o gyfleoedd i ennill sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith. Ar unrhyw adeg, roedd o leiaf 400 o garcharorion yn ddi-waith yn swyddogol, ac roedd llawer o'r rheini a oedd yn y gweithdai contract mewn gwirionedd yn segur.

Hefyd, canfu'r arolygwyr y canlynol:

- Bod y berthynas rhwng y staff a'r carcharorion wedi gwella, ond roedd y staff yn dal yn brin o hyfforddiant a hyder i siarad yn gadarnhaol â'r carcharorion neu i'w herio.
- Roedd y prosesau cydraddoldeb hil wedi cryfhau, ond ychydig iawn o'r staff neu'r rheolwyr a oedd wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth, felly nid oedd ganddynt ddigon o ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac roeddent yn gyndyn o herio materion yn ymwneud â hil ac achosion o alw enwau.
- Bu cynnydd sylweddol mewn agweddau eraill ar amrywiaeth, ac ymhob agwedd ar ofal iechyd

- Roedd y Parc yn lle cymharol ddiogel, yn enwedig i oedolion, ac roedd angen gwreiddio systemau newydd ar gyfer lleihau trais ac atal hunanladdiad. Roedd defnyddio grym ymhlith oedolion ifanc yn uchel, sy'n adlewyrchu lefel yr ymladd a'r ymosodiadau. Roedd oedolion ifanc agored i niwed yn dal wedi'u lleoli, yn amhriodol, yn yr uned neilltuo, oherwydd nid oedd darpariaeth amgen yng Nghymru.
- Roedd ailsefydlu wedi gwella, gyda chysylltiadau da â charchardai eraill ac â gwasanaethau cymunedol, ac roedd rhywfaint o waith ailintegreiddio da, yn enwedig yng nghyswllt llety, cyffuriau a chymorth i deuluoedd. Fodd bynnag, roedd defnyddio alcohol wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, ac ni cheid darpariaeth ddigonol ar ei gyfer

Meddai Anne Owers:

> "Bu gwelliannau yn y Parc ymhob un o'r pedwar prawf a ddefnyddiwn i weld a yw carchar yn iach – diogelwch, parch, gweithgarwch buddiol ac ailsefydlu. Fodd bynnag, roedd perfformiad y carchar yn dal yn annigonol o ran parch a gweithgarwch.
>
> "Fel ar adeg yr arolygiad blaenorol, ceir dau wendid allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae un ohonynt yn fewnol: yr angen i hyfforddi, i gefnogi ac i arfogi staff yn briodol i ymgysylltu â'r carcharorion ac i'w herio.
>
> "Mae'r llall yn allanol: Y Parc yw'r unig garchar hyfforddi cyffredinol yng Nghymru, ac ar hyn o bryd nid yw'n addas i gyflawni'r swyddogaeth honno. Felly, bydd carcharorion o Gymru naill ai'n gadael Cymru, neu'n peidio â chael y cyfleoedd addysg a hyfforddiant y mae arnynt eu hangen i gynyddu eu cyfleoedd bywyd y tu allan i'r carchar. Nid yw hyn yn gynaliadwy, ac mae'n rhywbeth y mae angen i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr roi sylw iddo ar unwaith."

Meddai Phil Wheatley, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

> "Rwy'n falch bod yr Arolygiaeth yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a wnaethpwyd yn y Parc ers yr arolygiad diwethaf, sydd wedi gwneud y sefydliad yn amgylchedd mwy diogel ac effeithiol i garcharorion.

"Mae'r Parc yn dal i weithio'n galed i roi sylw i'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Bydd adolygiad cyflawn o'r dysgu a'r sgiliau a ddarperir yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref, a bydd y cynnydd mewn darparu cyflogaeth a sicrheir fel rhan o raglen ehangu'r Parc yn hwb i'r cymwysterau galwedigaethol y gall carcharorion eu hennill."

Nodiadau i Olygyddion

1. Bydd yr adroddiad llawn ar gael ar wefan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o 2 Ebrill 2009 ymlaen, yn http://inspectorates.justice.gov.uk/hmprisons.
2. Cynhaliwyd yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw yng Ngharchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc (CEM a STI) y Parc ar 7-11 Gorffennaf 2008
3. Capasiti gweithredol CEM a STI y Parc adeg yr arolygiad oedd 1,178.
4. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o CEM a STI y Parc ym mis Ionawr 2006.
5. Mae CEM a STI y Parc yn garchar a sefydliad troseddwyr ifanc categori B lleol sy'n dal oedolion gwrywaidd (a gafwyd yn euog yn bennaf), oedolion ifanc (ar remand ac wedi'u dedfrydu) a phobl ifanc. Agorwyd y carchar ym mis Tachwedd 1997 a dyma'r unig garchar sy'n cael ei redeg yn breifat yng Nghymru.
6. Mae Anne Owers, y Prif Arolygydd, ar gael am gyfweliad. Os hoffech siarad â hi, cysylltwch â Nicole Valentinuzzi yn Swyddfa'r Wasg ar 0203 334 3547.